**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**24 GORFFENNAF 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mercher 24 Gorffennaf 2019.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers a Neville Phillips.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke ac Owen Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelod Lleol:
Y Cynghorydd Brian Lloyd ar gyfer eitem 6.1 (059421)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Arweinydd Tîm – Cynllunio; Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Cyfreithiwr ac Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

## 14. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 15. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a ddosbarthwyd yn ystod y cyfarfod sydd hefyd ynghlwm wrth y rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/documents/s55792/Late%20Observations.pdf?LLL=0

## 16. COFNODION

Cyflwynwyd a chymeradwywyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 17. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio dim un o'r eitemau.

## 18. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i nodir ar y Rhestr Ceisiadau Cynllunio sydd wedi'i hatodi.

## 19. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 18 aelod o'r cyhoedd yn bresennol a neb o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.00 pm)

..................................................

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO 24 GORFFENNAF 2019

| EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 059421 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Cais Llawn – Codi 32 o randai a gwaith cysylltiedig yng Ngwesty Bryn Awel, Ffordd Dinbych, yr Wyddgrug. | Siaradodd Mr M Bunting yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr M Blayney, yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cyng. Brian Lloyd yn erbyn y cais fel yr Aelod Lleol. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod bod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106/Ymgymeriad Unochrog fel y nodir yn yr adroddiad, ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 053325 | Cyngor Cymuned Gwernymynydd | Cais Amlinellol i godi 10 annedd yn Siglen Uchaf, Ffordd Rhuthun, Gwernymynydd | Siaradodd Mr M Meadway yn erbyn y cais ar ran Cyngor Cymuned Gwernymynydd.<br><br>Siaradodd Mr G Scott, yr asiant, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod bod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 neu Ymgymeriad Unochrog fel y nodir yn yr adroddiad, ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058561 | Cyngor Tref Caerwys | Cais Cynllunio Ôl-Weithredol i gadw 4 colofn golau a goleuadau cysylltiedig ac 1 golau ar rwystr uchder cerbydau yn Thomas Plant Hire Depot, Llwybr Hir, Caerwys | Siaradodd Dr Evans yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. Cynnwys amod ychwanegol i dderbyn manylion y canopïau i'w cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cadw wedi hynny. |
| 056875 | Cyngor Cymuned Sealand | Materion Cyffredinol - Cais Llawn - Estyniad i ddarparu | Nid oedd unrhyw siaradwyr trydydd parti. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad, yn unol |

| EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | storfa mewn cysylltiad â'r defnydd cyfreithlon presennol yn Marcher Court, Ffordd Sealand, Sealand | | ag argymhelliad y swyddog. |
| **APÊL** | | | | |
| 059344 | | Apêl gan Mr I Parry yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod Caniatâd Cynllunio ar gyfer codi estyniad deulawr i ochr/cefn annedd gydag estyniad dros y garej yn 16 Springfield Close, Cei Connah – GWRTHODWYD | **NODWYD** | |
| 058516 | | Apêl gan Mr S Metcalf yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod rhoi Caniatâd Cynllunio i droi hen gapel yn 2 annedd ac i godi 1 annedd ar wahân yn y Presbytri Pabyddol, Brunswick Road, Bwcle – WEDI'I GANIATÁU | **NODWYD** | |
| 058212 | | Apêl gan Lingfield Homes a Property Development Limited yn erbyn methiant Cyngor Sir y Fflint i roi | **NODWYD** | |

| EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig am benderfyniad ar gyfer cais amlinellol am ddatblygiad preswyl, gan gynnwys mynediad, man agored a'r holl waith cysylltiedig yn Woodside Cottages, Bank Lane, Drury, Bwcle – WEDI'I GANIATÁU | | |